


# Cofrestriadau dros dro TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/ Lefel 2 mis Tachwedd ar gyfer Cymru 2019

Uchafbwyntiau

05 Rhagfyr 2019


### Ffigur 1: Cofrestriadau Tachwedd 2019



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp  
Blwyddyn, 2017 i 2019 Cymwysterau Cymru; cyn-2017 Ofqual

Cafwyd 21,260 o gofrestrïadau ym mis Tachwedd 2019, i lawr 1,195 (5.3%) o Dachwedd 2018.

### Ffigur 2: Cofrestriadau mis Tachwedd yn ôl pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp

Mathemateg - Rhifedd yw'r pwnc sydd â'r nifer fwyaf o gofrestrïadau ym mis Tachwedd o hyd (50.9%), i lawr o 54.2% yn 2018.

### Ynghylch y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 a gyflwynwyd i gyrrff dyfarnu cyn cyfres Tachwedd 2019. Roedd cofrestriadau TGAU cyfres y mis Tachwedd hwn ar gyfer: Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd, Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith.

Mae'r datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan gyrrff dyfarnu, yn gywir hyd at 23 Hydref 2019.

### Cynnwys

Cynnwys.....	<u>2</u>
Ystadegau.....	<u>5</u>
Rhestr termau.....	<u>10</u>
Nodiadau cefndir.....	<u>12</u>

Ystadegydd: Jonathan Davey

01633 373 261

[ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org)



Ymholiadau gan y cyfryngau: Alan Morris

01633 373 216

[cyfathrebu@cymwysteraucymru.org](mailto:cyfathrebu@cymwysteraucymru.org)



# CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015<sup>1</sup>, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran bodloni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Ers blwyddyn academiaidd 2017/18, rydym wedi casglu ac adrodd ar ddata ar gyfer Cymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cyn blwyddyn academiaidd 2017/18, Ofqual<sup>2</sup> a fu'n casglu ac yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru. Mae'r cymariaethau a wneir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gennym ni (Tachwedd 2017 a Thachwedd 2018) ac Ofqual (Tachwedd 2016 ac yn gynharach).

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 yng Nghymru ar gyfer cyfres arholiadau Tachwedd 2019. Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y cofrestriadau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a gyflwynwyd gan y cyrff dyfarnu erbyn 25 Hydref 2019, gan adlewyrchu'r sefyllfa ar 23 Hydref. Gall y ffigurau ar gyfer cofrestriadau newid bob dydd hyd at ddiwrnod yr arholiadau. Gall y ffigurau cofrestru gynnwys mwy nag un cofrestriad ar gyfer dysgwyr unigol ar draws y pynciau.

## DYLANWADAU ALLANOL

Mae nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar pam y gallai cofrestriadau mis Tachwedd ar gyfer grwpiau blwyddyn newid dros amser, er enghraifft newidiadau i:

- Faint y boblogaeth;
- ymddygiad cofrestru e.e. pan fydd dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer eu TGAU;
- nifer y cymwysterau TGAU sy'n cael eu cymryd ar gyfartaledd;
- y mathau o gymwysterau a ddilynir yn y cyfnod ôl-16;
- mesurau perfformiad ysgolion.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted>

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/government/news/changes-to-the-publication-of-geographical-breakdowns-of-data>

Yr ystadegau swyddogol diweddaraf sydd ar gael ar boblogaeth Cymru yn ôl oedran yw'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru<sup>3</sup>. Mae'r rhain yn dangos cynnydd o 1.9% a 0.7% yn nifer y bobl ifanc 15 a 16 mlwydd oed yn y drefn honno yn 2019 o'i gymharu â 2018. I'r gwrthwyneb, mae'r boblogaeth bosibl o ddysgwyr blwyddyn 12 ac uwch wedi gostwng, gyda 3.8% yn llai o bobl ifanc 17 oed a 2.1% yn llai o bobl ifanc 18 oed.

**Tabl 1: Newidiadau yn y Boblogaeth**

Blwyddyn	15 oed	16 oed	17 oed	18 oed
2019	33,476	33,002	32,939	34,685
2018	32,843	32,781	34,248	35,447
Newid (2019 - 2018)	633	221	-1,309	-762
Canran y newid ((2019 - 2018) / 2018)	1.9%	0.7%	-3.8%	-2.1%

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

Gan fod y datganiad hwn yn seiliedig ar gyfrif o gofrestrïadau ar lefel cymhwyster, nid yw'n bosibl i ni fesur effaith ffactorau o'r fath.

### Diwygiadau i gymwysterau

Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru<sup>4</sup> o gymwysterau ar gyfer plant 14-19 oed yn 2012, mae cyfres newydd o gymwysterau diwygiedig wedi'u cyflwyno yng Nghymru. Mae gwybodaeth am y newidiadau hyn a rhestr o'r pynciau yr effeithir arnynt i'w gweld ar ein gwefan<sup>5</sup>.

Mae nifer cyfyngedig o bynciau ar gael yng nghyfres mis Tachwedd o'i gymharu â chyfres yr haf. Ym mis Tachwedd 2019, caiff cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Mathemateg, Mathemateg – Rhifedd, Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith eu cymryd gan ddysgwyr yng Nghymru. Mae nifer fach o gymwysterau eraill hefyd yn cael eu dyfarnu, gan gynnwys arholiadau ailsefyll ar gyfer y TGAU newydd 9-1 yn Lloegr mewn Mathemateg a Saesneg Iaith.

<sup>3</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/National/2016-based/populationprojections-by-year-age>

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-yng-nghymru-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion.pdf>

<sup>5</sup> <https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/diwygio-cymwysterau-cyffredinol/pa-bynCIAU-sydd-ar-gael/>

Pan fyddwn yn defnyddio "cymwysterau TGAU diwygiedig", rydym yn cyfeirio at gymwysterau TGAU a ddiwygiwyd i fodloni meini prawf cymeradwyo a amlinellwyd yng Nghymru.

### **Mesurau perfformiad**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddiad<sup>6</sup> ar 16 Hydref 2017 ynghylch rheolau newydd sy'n gysylltiedig â chofrestriadau TGAU. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg mai dim ond cofrestriad cyntaf dysgwr ar gyfer arholiad TGAU a fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion o haf 2019. Yn flaenorol, y radd orau a gyflawnwyd a oedd yn cyfrif. Mae'r cyhoeddiad yn golygu y bydd y graddau cyntaf a gyflawnir gan ddysgwyr ym mlwyddyn 10 neu'n is yn cael eu cyfrif tuag at fesurau perfformiad.

Efallai y bydd newidiadau diweddar i fesurau perfformiad yn dal i effeithio ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU ym mis Tachwedd 2019. O 2017, roedd uchafswm o ddau gymhwyster nad oeddent yn gymwysterau TGAU yn cyfrif tuag at bob mesur ar sail trothwy a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn cyfrif tuag at elfennau llythrennedd y lefel 2 cynhwysol neu'r sgôr 9 pwynt wedi'i chapio.

Gwnaed newidiadau eraill i'r dull o gyfrifo'r mesur perfformiad sydd wedi'i gapio ar 9 pwynt yn 2019. Mae nifer y slotiau neilltuedig ar gyfer TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth wedi gostwng o bump i dri ac felly bydd chwe slot heb eu cadw ar gyfer cymwysterau eraill sy'n gymwys ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Yn y slot llythrennedd, bydd y graddau 'gorau o'r cyntaf' a gyflawnir mewn cymwysterau TGAU Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith neu Llenyddiaeth Gymraeg yn cyfrif. Yn y slot rhifedd, bydd y graddau 'gorau o'r cyntaf' a gyflawnir mewn cymwysterau TGAU Mathemateg neu Mathemateg-Rhifedd yn cyfrif.

---

<sup>6</sup> [https://llyw.cymru/newidiadau-i-reolau-cofrestrun-gynnar-ar-gyfer-arholiadau-yn-cael-eu-cyhoeddi-kirsty-williams?\\_ga=2.264998159.1049658125.1575280466-1544987904.1553074319](https://llyw.cymru/newidiadau-i-reolau-cofrestrun-gynnar-ar-gyfer-arholiadau-yn-cael-eu-cyhoeddi-kirsty-williams?_ga=2.264998159.1049658125.1575280466-1544987904.1553074319)

# YSTADEGAU

## COFRESTRIDAU TGAU


**Tabl 2: Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn TGAU Tachwedd 2019**

Pwnc TGAU	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
Mathemateg	10	15	5,215	1,015	495	6,750
Mathemateg - Rhifedd	*	10	10,545	200	65	10,825
Saesneg Iaith	0	5	1,725	1,225	425	3,380
Cymraeg	0	0	260	15	*	280
TGAU 9-1	0	0	0	15	10	25
<b>Cyfanswm</b>	<b>10</b>	<b>35</b>	<b>17,745</b>	<b>2,470</b>	<b>995</b>	<b>21,255</b>

*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau yn ôl casgliad Grŵp Blwyddyn, ar 24 Hydref 2018, Cymwysterau Cymru*

Roedd 21,255 o gofrestriadau TGAU ar gyfer cyfres Tachwedd 2019, 21,230 (99.9%) ohonynt ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig. Ymhlith y cymwysterau a gynhwyswyd yn y categori 'TGAU 9-1' y mae arholiadau ailsefyll cymwysterau TGAU Lloegr 9-1 newydd mewn Saesneg Iaith a Mathemateg. Gellir gwneud y cymwysterau hyn mewn ysgolion annibynnol.

**Ffigur 3: Cofrestriadau TGAU yn ôl Grŵp Blwyddyn mis Tachwedd**



*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2017 i 2019 Cymwysterau Cymru; cyn-2017 Ofqual*


Dysg wyr blwyddyn 11 oedd yn cyfrif am y mwyafrif (17,745, 83.5%) o gofrestriadau TGAU ym mis Tachwedd 2019, i fyny 0.7 pwynt canran o gymharu â'r llynedd. Roedd tua 1 o bob 6 cofrestriad TGAU mis Tachwedd ar gyfer dysgwyr a oedd yn dychwelyd i ailsefyll cymhwyster (blwyddyn 12 neu uwch), a pharhaodd y cofrestriadau TGAU ar

gyfer Blwyddyn 10 neu is yn gymharol brin (0.2%).

## Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn ar gyfer pynciau TGAU diwygiedig Tachwedd 2019

### TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg - Rhifedd

**Ffigur 4: Cofrestriadau TGAU Mathemateg yn ôl grŵp blwyddyn ym mis Tachwedd**




Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2017 i 2019 Cymwysterau Cymru; cyn-2017 Ofqual

Roedd 6,750 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg ym mis Tachwedd 2019, i fyny 30 (0.4%) ar gyfres arholiadau Tachwedd 2018.

Roedd dysgwyr blwyddyn 11 yn cyfrif am dros dri chwarter (77.3%) o gofrestriadau Tachwedd 2019 ar gyfer TGAU Mathemateg. Roedd y dysgwyr a oedd yn dychwelyd i ailsefyll y cymhwyster (Blwyddyn 12 neu uwch) yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r cofrestriadau a oedd yn weddill

(22.4%) er bod cofrestriadau o flwyddyn 10 neu is yn parhau i fod yn isel iawn (0.4%).

**Ffigur 5: TGAU Mathemateg - cofrestriadau Rhifedd mis Tachwedd yn ôl grŵp blwyddyn**



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – casglu data Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2017 i 2019 Cymwysterau Cymru; cyn-2017 Ofqual

Roedd 10,825 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd ym mis Tachwedd 2019, i lawr 1,345 (11.0%) o'i gymharu â chyfres arholiadau Tachwedd 2018.

Roed y rhan fwyaf (97.4%) o gofrestriadau Tachwedd 2019 ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11. Mae cyfran y cofrestriadau y cyfrifir amdanynt gan ddysgwyr Blwyddyn 12 neu'n uwch a

ddychwelodd i ailsefyll TGAU Mathemateg – Rhifedd yn is o lawer (2.4%) o gymharu â TGAU Mathemateg.


**Tabl 3: TGAU Mathemateg a Mathemateg - cofrestrïadau Rhifedd mis Tachwedd yn ôl grŵp blwyddyn**

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
<b>TGAU Mathemateg</b>						
2019	10	15	5,220	1,025	500	6,770
2018	10	15	4,935	1,125	640	6,725
2017	*	230	20,350	1,515	610	22,710
2016	0	305	22,610	175	25	23,115
<b>TGAU Mathemateg - Rhifedd</b>						
2019	*	10	10,545	200	65	10,825
2018	*	20	11,715	340	95	12,170
2017	*	220	18,880	495	130	19,730
2016	0	335	28,705	145	15	29,205

*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestrïadau yn ôl casgliad Grŵp Blwyddyn*

## TGAU Saesneg laith

**Ffigur 6: Cofrestriadau TGAU mis Tachwedd Saesneg laith yn ôl grŵp blwyddyn**




Cafwyd 3,380 o gofrestriadau ym mis Tachwedd 2019, sef cynnydd o 1.0%. O'r rhain, roedd 1,725 (51.0% o'r holl gofrestriadau) gan ddysgwyr Blwyddyn 11, i lawr o 1,760 (52.6% o'r holl gofrestriadau) fis Tachwedd diwethaf.

Roedd 1,650 o gofrestriadau (48.8% o'r holl gofrestriadau) gan ddysgwyr blwyddyn 12 neu uwch, i fyny o 1,585 (47.4% o'r holl gofrestriadau) fis

## TGAU Cymraeg laith

**Ffigur 7: Cofrestriadau TGAU mis Tachwedd Cymraeg laith yn ôl grŵp blwyddyn**



Cafwyd 280 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Cymraeg laith ym mis Tachwedd 2019, cynnydd o 42.6%. Roedd 93.9% o'r rhain gan ddysgwyr Blwyddyn 11, cynnydd o gymharu â 90.8% ym mis Tachwedd y llynedd. Roedd 15 o gofrestriadau (6.1% o'r holl gofrestriadau) gan ddysgwyr blwyddyn 12 neu uwch; yn gymesurrol lai o gymharu â Thachwedd 2018 (9.2%). Yn y ddwy flynedd roedd cofrestriadau ar qyfer blwyddyn 10



**COFRETRIADAU TYSTYSGRIF LEFEL 1/LEFEL 2** Mae cyfanswm y cofrestrïadau ar gyfer cofrestrïadau tystysgrif Lefel 1/Lefel 2 ym mis Tachwedd 2019 ar gyfer Cymru yn rhy isel i'w ddatgelu ar gyfer y datganiad hwn, yn unol â'n polisi interim allbynnau ystadegol<sup>7</sup>.

---

<sup>7</sup> <https://qualificationswales.org/media/2858/171018-polisi-allbynnau-ystadegol-interim.pdf>

# RHESTR TERMAU

## **Corff dyfarnu**

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU, gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

## **TGAU**

Mae Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn ystod eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sail ar gyfer astudio neu hyfforddiant lefel uwch, neu fynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

## **Cofrestrïadau cyfnewid**

Mae ysgolion a cholegau yn cofrestru dysgwyr sy'n cwblhau cymhwyster ac sydd eisïau hawlio eu gradd derfynol yn y sesiwn arholiad hwnnw.

## **Blwyddyn 10**

Dysgwyr sy'n 15 oed erbyn 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd berthnasol.

## **Blwyddyn 11**

Dysgwyr sy'n 16 oed erbyn 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd berthnasol.

## **Blwyddyn 12**

Dysgwyr sy'n 17 oed erbyn 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd berthnasol.

## **Canolfan**

Corff sy'n ymgymryd â darparu asesiad (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysgol, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw canolfannau.

## **Llinol**

Mae cymwysterau TGAU llinol wedi'u cynllunio fel bod yr holl asesu-mewn pwnc yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y rhaglen ddysgu. Mae hyn yn golygu bod angen i ddisgybl sefyll yr holl gydrannau asesu ar gyfer y cymhwyster (arholiadau, ac ar gyfer rhai pynciau, mathau eraill o asesiad dan reolaeth) bob tro y caiff ei gofrestru gan ei ysgol neu goleg i dderbyn gradd.

## Unedol

Mae cymwysterau unedol wedi eu cynllunio fel bod modd i ddysgwyr gymryd unedau asesu ar wahanol adegau yn ystod y cwrs, gyda gradd derfynol yn cael ei 'chfynewid' ar ddiwedd y rhaglen ddysgu unwaith y bydd disgybl wedi cwblhau'r holl unedau. Ar gyfer TGAU, mae'n rhaid i'r dysgwyr gwblhau lleiafswm o'r asesiad ar gyfer cymhwyster yn y gyfres lle maen nhw'n cyfnewid.

# NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swydddogol (Cymru) 2017<sup>8</sup> a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007<sup>9</sup>. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swydddogol<sup>10</sup> ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swydddogol.

## Ffynhonnell Ddata

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu tystysgrifau TGAU a Lefel 1/Lefel 2 wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer y cofrestriadau ar gyfer pob cymhwyster sydd ar gael ym mis Tachwedd 2019. Mae'r cofrestriadau ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig, waeth pa fath o ganolfannau ydynt. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu nifer y cofrestriadau a gaiff eu cyfri yn ôl pwnc ac oedran dysgwyr yng Nghymru, yn seiliedig ar grwpiau blwyddyn ysgol (Blwyddyn 11 yw'r flwyddyn academaidd lle mae dysgwyr yn dod yn 16 oed).

Casglwyd a chofnodwyd data cyn cyfres Tachwedd 2017 gan Ofqual<sup>11</sup>.

## Cyfyngiadau'r data

Mae'n bosibl bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu yn wallus. Felly, ni all Cymwysterau Cymru warantu bod yr wybodaeth a dderbyniwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer materion systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau cywirdeb y data a'i herio neu ei gwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â hwy yn ystod y cynllun cychwynnol ac unrhyw gyfnodau o newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) y dylai'r holl ddata, fel amod o'u rheoleiddio, fod yn gwbl gywir;

---

<sup>8</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/contents/made>

<sup>9</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents>

<sup>10</sup> <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/>

<sup>11</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/gcse-and-level-1level-2-certificates-entries-in-england-november-2016>

- Bod yn effro i newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynwyd drwy gymharu data unigol a ddychwelwyd dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl yn weithredol gyda'r darparwr data.

Gellir gohirio cyhoeddi os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Mae data wedi'i gasglu ar adeg briodol pan fydd yn rhesymol gyflawn. Ar gyfer TGAU a'r dystysgrif Lefel 1/Lefel 2, roedd hyn ar 25 Hydref 2019. Fodd bynnag, gall ysgolion barhau i wneud cofrestriadau hwyr hyd at ddata'r arholiad, felly bydd cyfanswm niferoedd cofrestriadau yn newid o gymharu â nifer y cofrestriadau dros dro. Am y rheswm hwn, mae teitl y datganiad hwn yn cyfeirio at gofrestrïadau dros dro.

### **Cymariaethau**

Ers 2017/18, cyrff dyfarnu sydd wedi cyflwyno data i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid dehongli'r cymariaethau â data Ofqual hanesyddol yn ofalus.

### **Cwmpas Daeryddol**

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 yng Nghymru ar gyfer cyfres arholiadau Tachwedd 2019 ar gyfer canolfannau yng Nghymru.. Nid yw'r datganiad hwn cynnwys tystysgrifau TGAU a Lefel1/Lefel 2 a gymerwyd y tu allan i Gymru.

### **Diwygiadau**

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y cofrestriadau fel arfer yn cael eu diwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu diwygio i gynnwys data hwyr neu gywiro gwall.

### **Cyflawnrwydd y data**

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data ar gofrestrïadau at Cymwysterau Cymru ar gyfer pob cymhwyster rheoleiddiedig a ddsberthir fel TGAU neu dystysgrifau Lefel 1/Lefel 2. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd set gyflawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, er mwyn sicrhau bod y data mor gyflawn â phosibl. Nid yw cymwysterau Safon Uwch na Safon UG yn cael eu dyfarnu yng nghyfres mis Tachwedd.

## Talgrynnu a Chyfrinachedd

I ddiogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru<sup>12</sup>, mae'r holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a roddwyd wedi'u talgrynnu. Yn y sylwadau a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir \* yn lle ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

## Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i helpu gyda'n dealltwriaeth o batrymau cofrestru.

## Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r un hwn, gan gynnwys:

- Cofrestriadau mis Tachwedd, a datganiad ystadegol o gofrestriadau'r haf ar gyfer Lloegr<sup>13</sup> (gyda data cyfatebol Cymru mewn tablau excel ar gyfer blynyddoedd academaidd hanesyddol) a gyhoeddwyd gan Ofqual.
- Datganiad blynyddol canlyniadau'r cyfrifiad 'Ysgolion', a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru<sup>14</sup>.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 8 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>15</sup>.

Mae cronfa ddata QiW<sup>16</sup> yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

## Y diweddariad nesaf

Tachwedd 2020 (dros dro).

---

<sup>12</sup> <https://qualificationswales.org/english/publications/interim-statistical-outputs-policy/>

<sup>13</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics?departments%5B%5D=ofqual>

<sup>14</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?lang=en>

<sup>15</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=en>

<sup>16</sup> <https://www.qiw.wales/>

### **Adborth gan ddefnyddwyr**

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy e-bost i [ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org)

[.<mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org>](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org).

© (2019) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol..